

Annwyl Ysgolion a Theuluoedd,

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn arolygu ei gynllun i greu a gwella teithiau ar draws y ddinas am gerdded a seiclo teithiau bob dydd. Mae hyn y cynnwys teithiau i'r ysgol, gwaith, siopa, cymdeithasau a hamdden, ond nid yw'n cynnwys teithiau cerdded a seiclo a ddefnyddir am ymarfer corff yn unig.

Enw'r cynllun yw' Map Rhwydwaith Teithio Llesol a bydd yn ein gallugogi i flaenoriaethu lle dylai gwelliannau ddigwydd a'n cefnogi ni i geisio am grantiau oddi wrth Lywodraeth Cymru i wneud y gwelliannau hyn.

Er mwyn deall lle bydd angen teithiau newydd ac i helpu blaenoriaethu'r teithiau hyn, rydym angen deall pa deithiau sydd yn cael eu defnyddio hyd yn hyn gan drigolion y ddinas ar gyfer cerdded a seiclo, ac os oes unrhyw broblemau ar y teithiau hyn, er enghraifft, cyfleusterau croesi gwael, traffig trwm, neu bryderon diogelu personol.

Rydym hefyd angen deall pan fod rhwystrau yn bodoli, gan gynnwys y problemau a restrwyd uchod, sydd yn rhwystro pobl rhag cerdded a seiclo.

Rydym yn gobeithio cael gwybodaeth wrth deuluoedd mewn ysgolion Caerdydd, a gobeithiwn gallwch chi ein helpu. Rydym wedi creu gweithgaredd i'ch plant chwilio gyda chi, yn sôn am deithiau arferol rydych yn ymgymryd ar draed neu ar feic.

Mae croeso i chi weithio ar bapur plaen ac ymateb gyda llun o'r gwaith, sydd yn galluogi i bawb gymryd rhan, hyd yn oed heb argraffydd. Croesi i'ch plentyn ddulunio'r map mor greadigol ag maen nhw eisiau. Gallen wneud hyn ar ben ei hun neu gyda help gan aelod o'r teulu. Gweler esiamplau ar y tudalennau canlynol. Ebostiwch eich mapiau i: [cynlluniateithio@caerdydd.gov.uk](mailto:cynlluniateithio@caerdydd.gov.uk)

Er mwyn dweud diolch am roi eich amser, gall eich plentyn argraffu tystysgrif i arddangos, yn ogystal â gwybod eich bod wedi help teuluoedd eraill i gerdded a seiclo yn ddigoel.

Gyda diolch,

Tîm Teithio Llesol Ysgolion

[cynlluniateithio@caerdydd.gov.uk](mailto:cynlluniateithio@caerdydd.gov.uk)



Ysgol Teithio Llesol  Active Travel School



# Mae Cyngor Caerdydd eisiau eich help!

Rydym am gneud cynllun i helpu trigolion Caerdydd deithio'n ddiogel tra fyddan yn cerdded a seiclo.



Rydym am wybod mwy am yr ardal rydych yn byw ynddo, a sicrhau bod y cynllun yn gallu helpu teuluoedd fel chi.

R

1. Yn y bocs ar y dudalen nesa, tynnwch lun o fap neu lun o'r strydoedd lle rydych yn cerded neu seiclo. Cfoiwch ysgrifennu eu henwau. Os chi'n mynd drwy unrhyw baricau, rhowch nhw i fewn.



2. Nesaf, ychwanegwch unrhyw croesfannau rydych yn defnyddio yn rheolaidd ar y map.



3. Nesaf, ychwanegwch unrhyw garreg filltir rydych chi'n gweld.



Siopau neu gaffi



Ysgolion



Ffynhonnau neu ddelwau



Canolfannau Hamdden neu Lyfrgelloedd

4. Ewch yn ôl a defnyddio pensil coch i labeli unrhyw broblemau rydych yn cael ar y daith.




5. Wedyn, ceisiwch ateb y cwestiynau canlynol, wrth ysgrifennu'r atebion o dan y map,

- Beth ydych chi'n hoffi am y daith?
- Beth ydych chi'n meddwl gallen ni wneud i helpu gyda'r problemau a restrwyd mewn coch?



Ysgol Teithio Llesol  Active Travel School





---

---

---

Ysgol Teithio Llesol



Active Travel School





# Seren Teithio Llesol



Mae'r tystysgrif yn tystio fod

\_\_\_\_\_ (enw)

Wedi rhoi gwybodaeth gwerthfawr i Gyngor Dinas Caerdydd am yr ardal maen nhw'n byw ynddi.

Bydd eich map yn galluogi i deuluoedd eraill gerdded a seiclo'n ddigoel yn eich cymuned. Rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn.


Diolch! Rydych yn Seren Teithio Llesol!



Ysgol Teithio Llesol  Active Travel School



# Esiampyl- Y Cyfnod Sylfaen



# EsiampI- CA2

